**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-06-1496
Ein cyf/Our ref: JMHSC/11069/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

deisebau@senedd.cymru

07 Ionawr 2025

Annwyl Carolyn,

**Deiseb P-06-1496 Gwneud sgrinio'r galon yn ofyniad gorfodol ar gyfer ymaelodi â chlybiau chwaraeon a champfeydd yng Nghymru.**

Diolch ichi am eich llythyr ynglŷn â'r ddeiseb uchod.

Fel gwledydd eraill y Deyrnas Unedig, mae Llywodraeth Cymru yn dilyn cyngor annibynnol, arbenigol gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU, sy'n cynghori Gweinidogion am bob agwedd ar sgrinio'r boblogaeth a sgrinio wedi'i dargedu. Mae'n dod â thrylwyredd ac awdurdod academaidd i faes hynod gymhleth y mae'r pwyllgor hwn yn arweinydd rhyngwladol ynddo.

Nid yw Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU yn argymell sgrinio’r boblogaeth yn systematig, neu sgrinio wedi'i dargedu ar y galon ar hyn o bryd. Mae ansicrwydd ynghylch manteision cyffredinol adnabod pobl sydd â ffactorau risg ac nid yw'r profion presennol yn ddigon dibynadwy felly byddai llawer o bobl heb gael eu hadnabod ac felly'n cael sicrwydd ffug, a byddai llawer o bobl eraill yn cael canlyniadau positif ffug.

Ar hyn o bryd nid oes triniaeth y cytunir arno i rywun sydd wedi cael ei nodi fel rhywun sy'n wynebu risg. Gall canlyniad prawf positif anghywir atal pobl rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon, a byddai hyn yn ei dro yn cael effaith niweidiol ar eu hiechyd cyffredinol, yn ogystal ag arwain at bryder hirdymor sylweddol. Yn hyn o beth, gall sgrinio achosi niwed anfwriadol.

Mae Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU yn adolygu ei holl safbwyntiau polisi yn rheolaidd ac mae'r pwyllgor yn parhau i adolygu unrhyw dystiolaeth newydd a gyhoeddir ar bwnc marwolaeth sydyn y galon, gan gynnwys ar gyfer pobl ifanc sy'n chwarae chwaraeon ar lawr gwlad. Bydd Llywodraeth Cymru yn aros am gyngor diweddaraf Pwyllgor Sgrinio

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cenedlaethol y DU ac yn ystyried unrhyw newidiadau posibl cyn gynted ag y bydd y cyngor hwn ar gael.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care